GWASANAETH RHAGLENNI

"Ein hamcan craidd yw cyflwyno gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr ac o safon uchel, sy'n adlewyrchu a chyfoethogi bywyd Cymru".

FFEITHIAU, GWYBODAETH A MATERION CYFOES

Darlledwyd gwasanaeth Newyddion (BBC) cynhwysfawr o Gymru, Prydain a'r byd bob dydd o'r wythnos, gan dynnu ar adnoddau newyddiadurol eang y BBC. Ym mhob wythnos o'r flwyddyn cafwyd rhaglen materion cyfoes yn ymwneud fel arfer â phynciau Cymreig gan rannu'r dyletswyddau rhwng Y Byd ar Bedwar (HTV) a Taro Naw (BBC). Ar ddyddiau Sul rhoddodd Maniffesto (BBC) ddadansoddiad o faterion gwleidyddol y dydd o'r Cynulliad, San Steffan ac Ewrop. Am ddeg wythnos o'r flwyddyn cafodd y cyhoedd, mewn gwahanol rannau o Gymru, y cyfle i holi gwleidyddion a ffigurau cyhoeddus am bynciau llosg y dydd yn Pawb a'i Farn (BBC). Roedd un o'r rhain yn rhaglen arbennig o Efrog Newydd.

Cychwynnwyd cyfres newydd Wedi 6 (Agenda) ddechrau'r flwyddyn a'i darlledu bum gwaith yr wythnos. Ei bwriad oedd dod o hyd i eitemau diddorol, nad oeddent yn 'newyddion' fel y cyfryw, o bob rhan o Gymru. Y brif feirniadaeth a gafwyd oedd bod y rhaglen yn rhy fyr ac nad oedd cyfle i roi sylw teilwng i gynnwys yr eitemau.

S4C yw'r unig sianel ddaearol sy'n dal i ddarlledu rhaglen Ffermio (Telesgôp) yn yr oriau brig. Mae gwylwyr sy'n ymwneud â'r diwydiant amaethyddol, sy'n dal yn asgwrn cefn cyflogaeth cefn gwlad Cymru, yn gwerthfawrogi'n fawr ei darpariaeth o wybodaeth a barn.

Ar S4C Digidol mae Du a Gwyn (HTV) yn cynnig lle i drafodaeth estynedig ar bynciau'r dydd a Hacio (HTV) yn cymryd golwg ifanc ar bethau. Nodwyd 40fed pen-blwydd darlith enwog Saunders Lewis 'Tynged yr Iaith' gyda rhaglen ddogfen ardderchog ac yna drafodaeth eang ar gyflwr yr iaith yn Dyfodol yr Iaith (BBC).

HANES

Bu rhaglenni hanes yn flaenllaw yn arlwy'r flwyddyn ac mae'n ymddangos bod gan y deunydd hwn apêl gref. Mae'r Athro Merfyn Jones yn gyflwynydd awdurdodol ond hawdd ei ddilyn ac roedd Llafur Gwlad (Ffilmiau'r Bont) yn agoriad llygad ynglŷn ag amrywiaeth, maint a phwysigrwydd diwydiant yn ardaloedd gwledig Cymru dros y ddwy ganrif ddiwethaf. Diwydiannau trymion Cymru oedd gwrthrych Haearn a Dur (HTV). Gwnaed ymgais deg i gyflwyno hanes y Wladfa Gymreig yn Cof Patagonia (Teliesyn) trwy gyfrwng llu o luniau llonydd â sylwebaeth berthnasol. Hanes mwy cyfoes oedd testun rhaglen arbennig o Y Byd ar Bedwar – Yn ôl i'r Falklands (HTV), gyda Tweli Griffiths yn mynd â dau filwr o Gymru yn ôl i'r ynysoedd ar ymweliad dirdynnol. Sgŵp oedd darganfod Milton Rhys – cyfieithydd personol i Galtieri. Tebyg mewn ffordd oedd man cychwyn Vietnam (Telegraffiti), er i'r rhaglen golli rhywfaint o rym hanes y ddau unigolyn fu'n ymladd yno wrth geisio ymwneud â gormod o agweddau ar y rhyfel.

Cyflëwyd cyffro a pheryglon dyddiau cynnar hedfan masnachol yn Hedfan yr Iwerydd (Principal Films/Écoutez Voir), cyd-gynhyrchiad gyda France 5, tra yn Y Pompeii

PROGRAMME SERVICE

"Our core aim is to provide a comprehensive Welsh-language television service of high quality which reflects and enriches the life of Wales."

FACTUAL, INFORMATION AND CURRENT AFFAIRS

Newyddion (BBC) broadcast a comprehensive service covering Wales, Britain and the rest of the world, each day of the week, by drawing on the BBC's wide journalistic resources. A current affairs programme, usually dealing with Welsh topics, was shown each week of the year; a commitment shared between **Y Byd ar Bedwar** (HTV) and **Taro Naw** (BBC). On Sunday, **Maniffesto** (BBC) analysed the political issues of the day from the Assembly, Westminster and Europe. For ten weeks of the year **Pawb a'i Farn** (BBC) gave the public in different parts of Wales the opportunity to question politicians and public figures on topical issues. One of these was a special programme from New York.

A new series, **Wedi 6** (Agenda), was launched at the beginning of the year, broadcasting five nights a week. Its purpose was to find interesting stories from all over Wales, which weren't strictly 'news stories'. The main criticism was that the programme was too short and was therefore unable to capitalize fully on the items' content.

S4C is the only terrestrial channel to broadcast a farming programme, **Ffermio** (Telesgôp), during peak viewing hours. Viewers involved in the agricultural industry, which still forms the backbone of employment in rural Wales, greatly appreciate its provision of information and opinion.

Du a Gwyn (HTV) on S4C Digital offers a forum for extended discussion on topical issues while **Hacio** (HTV) provides a youthful overview of issues. The 40th anniversary of Saunders Lewis' famous 'Tynged yr Iaith' ('Fate of the Language') lecture was marked by an excellent documentary followed by a wide-ranging discussion on the state of the Welsh language in **Dyfodol yr Iaith** (BBC).

HISTORY

History programmes were prominent in the year's schedule and it would appear that material of this type has widespread appeal. Professor Merfyn Jones is an authoritative and accessible presenter and **Llafur Gwlad** (Ffilmiau'r Bont) was an eye-opener, discussing the diversity, size and importance of industry in rural Wales during the last two centuries. **Haearn a Dur** (HTV) dealt with Wales' heavy industries. A fair attempt was made in **Cof Patagonia** (Teliesyn) to portray the history of the Welsh colony in Patagonia by using a series of still photographs and relevant commentary. A special edition of **Y Byd ar Bedwar – Yn ôl i'r Falklands** (HTV) concentrated on more recent history, with Tweli Griffiths taking two Welsh soldiers back to the islands on an emotional visit. The discovery of Milton Rhys – Galtieri's personal interpreter – was a scoop. The starting point of **Vietnam** (Telegraffiti) was similar, but the programme rather lost the force of the powerful stories of two individuals who fought there in attempting to deal with too many aspects of the war.

The dangers and excitement of early commercial flights were portrayed in **Hedfan yr Iwerydd/Highways in the Sky** (Principal Films/Écoutez Voir), a co-production with France 5,

Cyntaf (Solo) cyflwynwyd hanes y drychineb gyntaf i daro'r ddinas enwog yn yr Eidal, ganrif cyn ei dinistr. Five oedd y cyd-gynhyrchydd ar hon ac RTE (Iwerddon) oedd y partner yn **Gerddi'r Diafol** (Concordia) – ymdriniaeth o ffrwydron daear a'u heffaith ar bobl gyffredin dros y byd.

Er yr enw, roedd pwnc **Sgandal Congo House** (Nant) yn nes adref, sef hanes arbrawf unigryw yn hanes cenhadol y Bedyddwyr. Anfonwyd brodorion o Affrica at y cenhadon ym Mae Colwyn.

Mae archifau ffilm a theledu Cymru yn cynnig ffynhonnell gyfoethog o ddeunydd o'u defnyddio'n ddeallus ac i bwrpas. Gwnaed hynny yn **Canrif y Merlod a'r Cobiau Cymreig** (Telesgôp) ac **Unwaith Eto .....** (HTV), oedd yn canolbwyntio'n wythnosol ar flwyddyn wahanol.

DOGFEN

Llwyddodd nifer o wahanol gyflenwyr i ddod o hyd i amrywiaeth eang a difyr iawn o bynciau a straeon i'w cyflwyno mewn rhaglenni dogfen. Enghraifft wych oedd **Mopio'n Lân** (Cwmni Da) a gyfunodd y tyner a'r doniol yn effeithiol iawn. Un arall nid annhebyg oedd **Dangos Dy Fylbs** (Cwmni Da) oedd yn ymdrin ag obsesiwn rhai pobl gydag addurno'u tai ar gyfer y Nadolig. Adroddwyd hanes y gantores **Iris Williams** (P.O.P. 1) yn ddiddorol a dadlennol trwy gyfweliadau ac archif a dathlwyd pen-blwydd y pêldroediwr o Gofi yn **Wyn Davies yn 60** (Cambrensis). Seren y sgrîn a'r theatr oedd gwrthrych **Siân Phillips** (BBC), a dangoswyd y berthynas ryfeddol o agos rhwng y triawd sy'n cadw gwesty yn Blackpool yn **Tony ac Aloma – Cofion Gorau** (Telegraffiti). Cafwyd gwerthfawrogiad cryf o gyfweliad Emyr Daniel gydag un o gewri'r byd darlledu Cymraeg yn **Dan Sylw: Gwyn Erfyl** (HTV) ac roedd yna wybodaeth newydd i len-garwyr yn y ddogfen gynhwysfawr **Dr. Kate** (Ffilmiau'r Bont). Roedd **Cofio'r Comin** (HTV) yn rhaglen arbennig iawn yn cofio'r protestio yn Greenham trwy lygaid menywod o Gymru. Dilyn blwyddyn o baratoi'r Brifwyl a wnaeth **Eisteddfod Dewi** (BBC).

Ymhlith uchafbwyntiau mawr y flwyddyn oedd y ddwy raglen ddirdynnol **Ar y Stryd** (Nant) – y rhaglenni cyntaf i'w cynhyrchu gan Angharad Penrhyn Jones. Cyffuriau yng Nghaernarfon a Bangor oedd y pwnc ac yng ngeiriau beirniaid gwobr 'Rhaglen Ranbarthol y Flwyddyn' (RTS) – "..roedd gan y rhaglen agosrwydd grymus ... oedd yn darparu tystiolaeth deledu hynod iawn." Roedd y rhaglen yn cydredeg ag apêl flynyddol S4C, y tro hwn ar gyfer Shelter Cymru. Darlledwyd hefyd **Tŷ Unnos** (Cwmni Da) – yn dilyn dau dîm yn codi tai mewn diwrnod. Syniad da, timau difyr, ond heb lwyddo i gyfleu yn llwyr y bwrlwm o gyflawni'r her. Dirdynnol hefyd oedd **Dwy Fam** (Ci Diog) adeg Sul y Mamau lle rhannwyd cof dwy fam am ddigwyddiadau erchyll yn hanes eu plant.

Roedd cynnwys **Tabŵ** (Einstein), sef arferion a phrofiadau rhywiol y Cymry, yn gofyn am slot hwyr ond roedd y driniaeth, yn ei hanfod, yn gyfrifol ac yn profi parodrwydd iach i ymwneud â phynciau na chafodd, yn draddodiadol, eu trafod lawer yn Gymraeg.

Ym maes y celfyddydau mae **Y Sioe Gelf** (Cwmni Da) yn gwneud gwaith graenus a llawn dychymyg o gyflwyno'r celfyddydau – o Gymru, Prydain a'r byd – mewn modd diddorol am 26 wythnos y flwyddyn. Mae'n amlwg fod gan y tîm cynhyrchu wybodaeth drylwyr a brwdfrydedd yn y maes. Hwy hefyd oedd yn gyfrifol am y drafodaeth wythnosol ar S4C Digidol ar y celfyddydau yn **Croma** (Cwmni Da) ac am gyflwyno arolwg eang o animeiddio o Gymru a'r byd yn **Darlun Byw** (Cwmni Da).

CYFRESI NODWEDD

Dyma'r cyfresi – rhwng 6 a 15 rhifyn mewn hyd – sy'n ymwneud â diddordebau poblogaidd, neu bobl yn eu cynefin. Maen nhw bron i gyd yn ein hamserlen ers peth amser, gan adlewyrchu eu hapêl hirhoedlog i ddilynwyr selog y sianel ac maen nhw'n llwyddo yn eu hamcan. Yr unig bryder posibl yw y gellid eu beirniadu (fel casgliad) o fod yn brin o apêl i wylwyr iau a llai traddodiadol ac yn pwyso'n rhy drwm ar fywyd y Gymru wledig ar draul ardaloedd eraill. Dyma un o gwestiynau anoddaf sianel sy'n gwasanaethu pob chwaeth a diddordeb.

Yn eu plith y mae'r bytholwyrdd **Cefn Gwlad** (HTV) – y rhaglen a enillodd bleidlais y gwylwyr am eu rhaglen fwyaf poblogaidd ar adeg pen-blwydd y sianel. Ymhlith y rhaglenni y bu mwyaf o sôn amdanynt eleni oedd y ddwy raglen am deulu o dras Eidalaidd yn byw yn Sir Gaerfyrddin. Yn sgîl cyfyngiadau Clwy'r Traed a'r Genau, ail gyfeiriwyd cyfres haf **Cefn Gwlad – Pedwar Cwm** (HTV) i ddyffrynnoedd Cymru lle nad oedd olion o'r clwy. Cyfresi eraill yn y categori eang hwn yw **Portreadau** (Ffilmiau'r Bont), **Ocsiwnïar** (Solo), cyfres bry-ar-y-wal a ddaliodd yn wych fywyd cwmni o arwerthwyr ym Meirionnydd, **Ysbyty Gwynedd** (Cardinal), **Yr Helfa** (Telesgôp) a **Y Clwy** (Telesgôp). Gwnaeth **Y Busnes Babis 'Ma** (Gwdihŵ) ymdrech gref i adlewyrchu her gwaith y fydwraig mewn amrywiaeth da o ardaloedd ac roedd yr ymgais i gyfleu arddeliad pobl cychod pleser Pwllheli dros eu hoff ddifyrrwch, yn **Hwylio** (Cwmni Da), yn un deg, er y gellid dadlau nad rhaglen i'r oriau brig oedd hon. Gorchestion tîm pêl-droed Merched Bangor a ddilynwyd yn **Genod y Bêl** (Apollo).

Ardaloedd mwy diwydiannol oedd yn gefndir i **Ar Dân** (Agenda) – yn dilyn brigâd dân y Canolbarth a'r Gorllewin – a **Tic Toc** (Telesgôp), a ddangosodd gymuned Ystradgynlais yn ymdopi â diweithdra ar ôl cau ffatri.

AR Y STRYD

while **Y Pompeii Cyntaf/The First Pompeii** (Solo) related the history behind the first tragedy to strike the famous Italian city, a century before its destruction. This was jointly produced with Five, while **Gerddi'r Diafol/Devil's Garden** (Concordia) – a programme on land mines and their effect on ordinary people worldwide – was produced in partnership with RTE (Ireland).

Despite the name, Sgandal Congo House (Nant) dealt with a subject closer to home, namely the history of a unique experiment during the Baptists' missionary past which involved the sending of native Africans to missionaries in Colwyn Bay.

Wales' film and television archives offer a rich source of material when used intelligently and for a purpose. This was done in **Canrif y Merlod a'r Cobiau Cymreig** (Telesgôp) and in **Unwaith Eto .....** (HTV), which focussed on a different year each week.

DOCUMENTARY

A number of different suppliers succeeded in finding a wide and very interesting variety of subjects and tales for their documentaries. An excellent example was **Mopio'n Lân** (Cwmni Da) which combined the tender and the humorous to great effect. Another, not dissimilar, programme was **Dangos Dy Fylbs** (Cwmni Da) which dealt with some people's obsession with decorating their homes for the Christmas period. **Iris Williams** (P.O.P. 1) portrayed the singer, by means of interviews and archive material, in an interesting and revealing manner, while **Wyn Davies yn 60** (Cambrensis) celebrated the Caernarfon footballer's birthday. **Siân Phillips** (BBC) was a portrayal of the film and theatre star while **Tony ac Aloma – Cofion Gorau** (Telegraffiti) depicted the remarkably close relationship between the trio who run a Blackpool hotel. Emyr Daniel's interview with one of the leading figures of Welsh broadcasting in **Dan Sylw: Gwyn Erfyl** (HTV) received a very positive response while the comprehensive documentary **Dr Kate** (Ffilmiau'r Bont) provided literature lovers with new information. **Cofio'r Comin** (HTV) was a very special programme which looked back at the protests at Greenham Common through the eyes of Welsh women. **Eisteddfod Dewi** (BBC) followed a year in the preparation of the National Eisteddfod.

Among the year's major highlights was the powerful two-part series **Ar y Stryd** (Nant) – the first programmes to be produced by Angharad Penrhyn Jones. Drugs and homelessness in Caernarfon and Bangor were the subject matter and, in the words of the judges for the RTS 'Regional Programme of the Year' award – "...the programmes had a compelling intimacy.....which in turn provided a remarkable television testimony." The programmes ran alongside S4C's annual appeal, this year for Shelter Cymru. **Tŷ Unnos** (Cwmni Da), which followed two teams building a house in a day, was also broadcast. A good idea, with entertaining teams, but the full excitement of the challenge was not completely conveyed. **Dwy Fam** (Ci Diog), broadcast on Mothering Sunday, was also emotionally powerful, focussing on two mothers sharing their memories of horrific episodes in their children's lives.

AR DÂN

The subject matter of **Tabŵ** (Einstein), namely the sexual practices and experiences of the Welsh, demanded a late slot but the content was treated in an essentially responsible way, and the series showed a healthy willingness to discuss subjects that have not traditionally been discussed much in the Welsh language.

In the arts, **Y Sioe Gelf** (Cwmni Da) discusses the scene in Wales, the UK and the rest of the world with polish and imagination – and does so in an engaging way for 26 weeks a year. The production team obviously has a thorough knowledge of and enthusiasm for the subject matter. They were also responsible for the weekly arts discussion programme on S4C Digital, **Croma** (Cwmni Da), and for presenting an overview of animation in Wales and the rest of the world in **Darlun Byw** (Cwmni Da).

FEATURES

These series – of some 6 to 15 episodes – deal with popular pursuits or with people in their communities. Almost all these series have been part of our schedule for some time and they succeed in achieving their aim, reflected in their long-lasting appeal to faithful viewers of the channel. The only potential concern is that they can be criticised, en masse, for failing to appeal to younger and less traditional viewers and for concentrating primarily on the life of rural Wales at the expense of other areas. This is one of the most difficult questions facing a channel that caters for every taste and interest.

Among these programmes is the evergreen **Cefn Gwlad** (HTV) – the series that won the viewers' vote for their favourite programme during the channel's birthday celebrations. Among the most talked about programmes this year were the two concerning a family of Italian descent living in Carmarthenshire. In the wake of the restrictions placed by the Foot and Mouth crisis, the summer series of **Cefn Gwlad – Pedwar Cwm** (HTV), was redirected to the Welsh valleys which hadn't been affected by the disease. Other series in this wide-ranging category were **Portreadau** (Ffilmiau'r Bont), **Ocsiwnïa**r (Solo) – a fly-on-the-wall series which captured excellently the life of a firm of auctioneers in Meirionnydd, **Ysbyty Gwynedd** (Cardinal), **Yr Helfa** (Telesgôp) and **Y Clwy** (Telesgôp). **Y Busnes Babis 'Ma** (Gwdihŵ) made a good attempt to reflect the challenges faced by midwives in a variety of areas. **Hwylio** (Cwmni Da) tried hard to convey the enthusiasm of people in Pwllheli whose favourite pastime is sailing and yachting, although it could be argued that this was not a peak-time programme. **Genod y Bêl** (Apollo) followed the achievements of the Bangor ladies' football club.

More industrial areas formed the backdrop for **Ar Dân** (Agenda), which followed the Mid and West Wales fire brigade, and **Tic Toc** (Telesgôp), which showed the community in Ystradgynlais coping with unemployment following the closure of the local factory.

CYFRESI NODWEDD YSGAFN

Mae Dewi Pws yn gyflwynydd unigryw. Mae ganddo gyfuniad o agosatrwydd a hiwmor hollol wreiddiol sy'n ei gwneud yn bleser i wylwyr dreulio hanner awr yn ei gwmni, ac sydd hefyd yn ennyn ymateb uniongyrchol gan y bobl, mewn gwledydd amrywiol iawn, y mae'n eu cyfarfod ar ei deithiau. Mae pawb yn ei adael gyda gwên. Daliodd **Byd Pws** (Nant) y cryfderau hyn yn gelfydd iawn. Cyfres arall o'r un stabal oedd hefyd yn gafael yn y dychymyg oedd **Haf Ganol Gaeaf** (Nant) a ddilynodd Iolo Williams a Caradoc Jones ar daith anturus – o ddringo a sylwi ar fyd natur ysblennydd – i Dde Georgia. Mae'r ddwy gyfres yn tynnu ar ddawn y gŵr camera mentrus, Alun Hughes. Byd natur hefyd oedd gwrthrych **Gwyllt** (Telesgôp). Iolo Williams oedd cyflwynydd hon yn ogystal â'r rhaglen drafod ar droed, **Crwydro** (Telesgôp). Tra oedd y rhaglen hon yn teithio llwybrau Cymru, cydio mewn dwy olwyn wnaeth Hywel Gwynfryn yn **Ar Dy Feic** (BBC) i fynd dramor a chyfarfod â Chymry sydd wedi ymgartrefu mewn gwledydd pellennig. Er bod **Dudley** (Opus) yn gyfres goginio, mae iddi apêl fwy eang fel sioe bobl. Mae cryfder Dudley wrth ymdrin yn naturiol â phobl yn amlwg iawn, ac wrth ddilyn gwahanol themâu cafwyd cyfle i gwrdd â wynebau newydd a chyfarwydd. Rhoddir gofal mawr i saernïaeth a diwyg y rhaglen. Cafwyd dwy raglen arbennig gan Dudley, **Dudley yn Bangkok** a **Dudley – Siocled**, y ddwy yn amrywiadau da iawn ar y syniad sylfaenol. Mae gan y **Clwb Garddio** (Cenad) 7,000 o aelodau ac mae'n ymdrin yn awdurdodol â'i phwnc. Cyfres "ffordd o fyw" yw **04 Wal** (Fflic) sy'n llwyddo i apelio at wylwyr yn y grŵp oedran anodd eu plesio – y 30au – yn ogystal â'r rhai sydd ychydig yn hŷn. Aled Samuel yw'r tywysydd ond y cartrefi yw'r sêr. Daeth yr eitemau 'bacpacio' ag awyr iach a wynebau newydd i'r gyfres **Pacio** (HTV). Mae Amanda Protheroe-Thomas yn parhau yn brif gyflwynydd ond croeso mawr i Llŷr Evans a Kevin Tame fel 'double-act' doniol.

DIGWYDDIADAU

Rhan bwysig iawn o waith S4C bob blwyddyn yw dod â gwyliau mawr y genedl i'r 'stafell fyw. Bellach mae S4C Digidol wedi sefydlu ei hun fel y man delfrydol i ddilyn holl brif ddigwyddiadau'r gwyliau mawrion yn fyw fel maent yn digwydd, tra bod rhaglenni pigion yn dod â detholiad o uchafbwyntiau yn nosweithiol ar analog. Dyna'r patrwm sy'n cael ei ddilyn yn llwyddiannus yn yr **Eisteddfod Genedlaethol** (BBC), **Eisteddfod yr Urdd** (Opus), y **Sioe Amaethyddol Frenhinol** (Telesgôp i'r BBC), **Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen** (Opus), **Yr Ŵyl Gerdd Dant** (Tonfedd/Eryri) ac hefyd erbyn hyn y Ffair Aeaf (Telesgôp) a **Sesiwn Fawr Dolgellau** (Avanti). Eleni hefyd roedd pencampwriaeth y byd ar gyfer **Treialon Cŵn Defaid** (Telesgôp) yn y Bala a phlesiwyd y gwybodusion yn fawr gan y driniaeth estynedig. Mae clod mawr yn ddyledus i'r timau o gyflwynwyr, ymchwilwyr, cynhyrchwyr a thechnegwyr sy'n gweithio oriau meithion yn darlledu'r digwyddiadau hyn er mwyn sicrhau bod y miri'n cael ei rannu gan wylwyr trwy Gymru gyfan a bellach yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd.

Mae **Cân i Gymru** (Teledu Apollo) yn dal i hawlio ei lle fel conglfaen i'n gwasanaeth ar Ddydd Gŵyl Dewi. Yn 2002, am y tro cyntaf cafwyd pedair rhaglen hanner awr o'r nos Lun tan y nos lau oedd yn arwain at y brif gystadleuaeth, gan ganiatáu i'r cyhoedd ddewis yr wyth gân fyddai'n cystadlu yn y brif noson ddaeth o'r Afan Lido.

Braidd yn ddigyffro, er hynny, oedd **Cyngerdd Caneuon i Gymru** (BBC) a recordiwyd ym mhafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cymysg hefyd oedd yr arlwy a gafwyd o Ruthun Nos Galan yn **Blwyddyn Newydd Dda** (Avanti). Teimlwyd bod hon yn well rhaglen na'r llynedd ond eto gellid bod wedi gwneud tipyn mwy o'r lleoliad allanol ar sgwâr y dref.

O bryd i'w gilydd, daw gŵyl newydd i sefydlu ei hun ac ychwanegu carreg filltir arall i galendr y flwyddyn. Un o'r rhain yw Gŵyl y Faenol a sefydlwyd gan y canwr opera Bryn Terfel. Eleni eto recordiodd cwmni Avanti ddau o gyngherddau'r ŵyl: **Tân y Ddraig III** gyda'r Tebot Piws a rhai o sêr eraill y saith a'r wythdegau a **Gala Operatig Gŵyl y Faenol** gyda pherfformiadau campus gan Bryn Terfel a Renée Fleming. Lansiwyd **Côr Cymru** (Opus), cystadleuaeth newydd sbon i geisio cyflwyno canu corawl Cymru ar wedd newydd. Yn gynharach yn y flwyddyn darlledwyd **Cystadleuaeth i Gantorion Cymreig** (BBC), sy'n dethol cynrychiolydd Cymru ar gyfer cystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd. Roedd safon y cystadleuwyr yn uchel iawn. Ffrwyth sydd wedi blaguro o Eisteddfod yr Urdd yw **Ysgoloriaeth Bryn Terfel** (Opus), cystadleuaeth o safon uchel ar gyfer saith o dalentau ifanc. Bwriedir darlledu'r gystadleuaeth yn fyw yn y dyfodol. Mae **Carolau o Langollen** (Opus) yn ddigwyddiad o bwys yng nghalendr y gogledd ers sawl blwyddyn a'r tro hwn Gwyn Hughes Jones, Rhian Mair Lewis a'r telynor ifanc Sasha Boldachev oedd y sêr. Darlledir yr uchafbwyntiau o fewn ychydig ddyddiau i'r digwyddiad ei hun. Eleni am y tro cyntaf ers blynyddoedd darlledwyd uchafbwyntiau eisteddfod Mudiad y Ffermwyr Ifanc yn **Yr Eisteddfod Arall** (Telesgôp). Er bod tipyn o'r cynnwys yn agored i feirniadaeth y rhai sy'n ystyried y math yma o adloniant yn or-draddodiadol, llwyddwyd i gyfleu yr hwyl a'r bwrlwm sy'n nodweddi'r mudiad.

Ddiwedd Hydref a dechrau Tachwedd y digwyddiad mawr yr oeddem yn ei ddathlu oedd ugeinfed pen-blwydd y sianel ei hun. Gwnaed hynny ar y sgrîn gydag amrywiaeth o raglenni gan gynnwys **Hanes S4C yn 20 oed** (Bont), **Plant y Sianel** (Nant), cymanfa fyw gofiadwy o Gapel y Tabernacl yn Nhreforys yn **Dechrau Canu Dechrau Canmol** (Elidir), uchafbwyntiau chwaraeon y cyfnod yn **Y Maes Chwarae – 20 Mlynedd o Chwaraeon** (BBC), **Cyngerdd Pen-blwydd S4C** (Avanti, Mr Producer, S4C) a'r catalog o'r archifau **Dyma S4C** (S4C).

CÂN I GYMRU

LIGHT FEATURES

Dewi Pws is a unique presenter. His combination of warmth and wholly original humour allows viewers to spend a pleasurable half hour in his company and also inspires the people he meets on his travels, in wildly varying countries, to respond directly to him. Everybody leaves his company with a smile. **Byd Pws** (Nant) skilfully showcased these strengths. Another series from the same stable, which also caught the imagination, was **Haf Ganol Gaeaf** (Nant), which followed Iolo Williams and Caradoc Jones to South Georgia on an adventurous journey of climbing and discovery of the spectacular natural world. Both series drew on the talent of the skilful cameraman, Alun Hughes. **Gwyllt** (Telesgôp) also dealt with the natural world. This was presented by Iolo Williams, as was the 'talk show on foot', **Crwydro** (Telesgôp). While this programme involved travels along the footpaths of Wales, Hywel Gwynfryn rode on two wheels in **Ar Dy Feic** (BBC) while travelling abroad to meet Welsh individuals who have settled in faraway countries. Although **Dudley** (Opus) is a cookery series, it has a wider appeal as a people show. Dudley's strengths in dealing with people are very evident, and an opportunity to meet familiar and new faces was provided by the different themes used in the series. Great attention is paid to the programme's presentation and format. Dudley also gave us two specials, **Dudley yn Bangkok** and **Dudley – Siocled**, both of which were very good variations on the original theme. **Clwb Garddio** (Cenad) has 7,000 members and deals with its subject authoritatively. **04 Wal** (Fflic) is a lifestyle programme that successfully appeals to viewers in the difficult-to-please 30s age group – as well as to those who are slightly older. Aled Samuel is the guide, but the homes are the real stars. The backpacking and open-air items brought new faces to **Pacio** (HTV). Amanda Protheroe-Thomas continues as the main star presenter, but a warm welcome is given to the amusing double-act of Llŷr Evans and Kevin Tame.

EVENTS

An important part of S4C's work every year is to bring the nation's major festivals into the living room. S4C Digital has now established itself as the ideal place to follow all the main events of the important festivals live, while selected highlights are provided every night on analogue. This is the successful pattern used for the **National Eisteddfod** (BBC), **Urdd Eisteddfod (**Opus), **Royal Welsh Show** (Telesgôp for the BBC), **Llangollen International Eisteddfod** (Opus), **Yr Ŵyl Gerdd Dant** (Tonfedd/Eryri) and the new additions – **Winter Fair** (Telesgôp) and **Sesiwn Fawr Dolgellau** (Avanti). Also this year, the world sheepdog trials championship of **Treialon Cŵn Defaid** (Telesgôp) was held in Bala and experts were very pleased with the extended coverage. High praise must be given to the teams of presenters, researchers, producers and technicians who work long hours while broadcasting these events to ensure that their enjoyment is shared with viewers throughout Wales and now for the first time in England, Scotland and Northern Ireland.

CYNGERDD PEN-BLWYDD S4C

Cân i Gymru (Teledu Apollo) still provides the cornerstone of our service on St David's Day. In 2002, for the first time, four half-hour programmes were broadcast from Monday to Thursday evenings leading up to the main competition, allowing viewers to choose the eight songs that would compete in the final at the Afan Lido.

Cyngerdd Caneuon i Gymru (BBC), however, which was recorded at the National Eisteddfod pavilion, was somewhat lacking in excitement.

The content of **Blwyddyn Newydd Dda** (Avanti), the programme from Ruthin on New Year's Eve, was also mixed. Although the programme was better than last year's, much more could have been made of the external location in the town's square.

From time to time, a new festival establishes itself and adds a new highlight to the year's calendar. One of these is the Faenol Festival, established by the opera singer Bryn Terfel. Once again this year, Avanti recorded two of the Festival's concerts: **Tân y Ddraig III** with Tebot Piws and other stars of the seventies and eighties, and the **Faenol Festival Operatic Gala** which saw splendid performances by Bryn Terfel and Renée Fleming. **Côr Cymru** (Opus), a brand new competition which aimed to present choral singing in Wales in a new way, was launched. Earlier in the year, **Cystadleuaeth i Gantorion Cymreig** (BBC), which chooses Wales' representative for the Cardiff Singer of the World Competition, was broadcast. The standard of the competitors was very high. **Ysgoloriaeth Bryn Terfel** (Opus), a competition of high standard for seven young talents, has emerged from the Urdd Eisteddfod. The competition may be broadcast live in future. **Carolau o Langollen** (Opus) has been an important event in the north Wales calendar for many years, and this time the stars included Gwyn Hughes Jones, Rhian Mair Lewis and the young harpist, Sasha Boldachev. Highlights are broadcast within a few days of the actual event. For the first time in many years, highlights of the Young Farmers' eisteddfod were broadcast this year in **Yr Eisteddfod Arall** (Telesgôp). Although much of the content was open to criticism from those who consider this type of entertainment old-fashioned, the programme managed to convey the fun and excitement characteristic of the organisation.

At the end of October and the beginning of November, the main event that we celebrated was the channel's twentieth birthday. This was marked on-screen by a variety of programmes, including **Hanes S4C yn 20 oed** (Bont), **Plant y Sianel** (Nant), a memorable, live service from the Tabernacle Chapel in Morriston in **Dechrau Canu Dechrau Canmol** (Elidir), the sporting highlights of the period in **Y Maes Chwarae – 20 Mlynedd o Chwaraeon (**BBC**)**, **Cyngerdd Pen-blwydd S4C** (Avanti, Mr Producer, S4C) and **Dyma S4C** (S4C)**,** a catalogue from the archives.

CHWARAEON

Y math arall o ddigwyddiadau sy'n cael sylw haeddiannol yn ein hamserlen yw'r rhai ym myd chwaraeon. Mae **Y Clwb Rygbi** (BBC), trwy gytundeb a dealltwriaeth gyda BBC Cymru, yn sicrhau ei bod yn bosibl i ni gynnig gêm rygbi fyw gyda'r nos ar ddydd Sadwrn bron bob penwythnos o'r tymor rygbi. Yn ystod 2002 roedd hyn yn cynnwys y cynghrair Celtaidd a gêmau o gystadleuaeth Heineken a'r Parker Pen yn ogystal â chynghrair Cymru. Mae'r gemau hyn i gyd yn cael eu dangos ar S4C yn unig ar nos Sadwrn, sy'n atyniad cryf i nifer sylweddol o wylwyr, yng Nghymru a dros y ffin, nad ydynt yn wylwyr rheolaidd. Mae hefyd yn atgyfnerthu'r Gymraeg mewn cartrefi lle efallai fod yna ddealltwriaeth ohoni ond lle mae ei defnydd yn brin. Mae safon y cynhyrchu a'r sylwebu yn arbennig o uchel. Darlledir hefyd gêmau rhyngwladol Cymru gefn-wrth-gefn gyda'r darllediadau iaith Saesneg ar y BBC. Ar nos Fawrth ar ddigidol roedd tîm cynhyrchu gwahanol wrthi yn **Le Rygbi** (Agenda) yn cyflwyno goreuon cynghrair rygbi Ffrainc. Er bod safon y rhaglen gylchgrawn prynhawn Sul Y Clwb (BBC) yn rhagori ar Gôl, ei rhagflaenydd, mae cwestiynau yn cael eu gofyn ynglŷn â pha mor ddeniadol ac unigryw yw'r ddarpariaeth yma. Erbyn hyn rhoddir rhywfaint o sylw i bêl-droed Cynghrair Cymru, yn ogystal â rygbi, yn y rhaglen hon.

Mae llwyddiant tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru yn fater o lawenydd i lawer un y dyddiau hyn a daw **Pêl-droed Rhyngwladol** (BBC) â sylwebaeth Gymraeg i'r sgrîn. Pan fydd cyfle, ceisiwn ddod o hyd i hawliau gemau sydd o ddiddordeb arbennig i ddilynwyr pêl-droed yng Nghymru pan fyddant ar gael. Darlledwyd gêm **Bangor v SK Sartid** (Nant) ac mae **Sgorio** (Nant) yn parhau bob nos Lun i ddangos detholiad o uchafbwyntiau gemau pêl-droed y cyfandir gydag awdurdod a sglein. Mae'r rhaglen o ddiddordeb ehangach y dyddiau hyn ers i Channel 4 beidio â darlledu gemau o'r Eidal. Er ei diddordeb i'r rhai sy'n gwirioni ar bêl-droed, efallai fod apêl **Mae'r Byd yn Grwn** (Nant) – cyfres am bêl-droed ar draws y byd – yn rhy gyfyng ar gyfer rhaglen oriau brig.

Roedd **Rasus** (Pedol) unwaith eto yn llwyddo i ddenu dilynwyr y rasio harnes ac arbrofwyd eleni i weld faint o ddiddordeb fyddai yna mewn gwylio bowlio dan do gyda chystadleuaeth rhwng Cymru a Lloegr yn **Pencampwriaeth Bowlio Dan Do Cymru** (Agenda). Dysgwyd gwersi wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen a chafwyd uchafbwynt cyffrous. Un o ddigwyddiadau chwaraeon y flwyddyn oedd y darllediad byw o'r gêm griced hanesyddol rhwng **Cymru a Lloegr** (Cwmni 10).

Tîm Cymru yn cystadlu mewn gwahanol gampau yw'r syniad tu ôl i **Cymru ar Ras** (Dream Team). Mae'r golygfeydd godidog yn ogystal ag ymdrechion arwrol y cystadleuwyr yn rhoi apêl gref i'r rhaglen er na theimlwyd yr un ymateb i'r gyfres hon â'r rhai blaenorol.

CERDDORIAETH

Mae llawer o ddarpariaeth gerddoriaeth glasurol S4C yn rhan o'r Digwyddiadau a grybwyllwyd uchod ond rhaid hefyd crybwyll yr uchafbwyntiau canlynol: cyngerdd **Y Tri Tenor** (Opus) o Fangor – perfformiad caboledig o ffefrynnau cerddorol wedi eu gwisgo a'u goleuo'n arbennig o dda; hefyd, **Cario'r Groes** (Opus) – cyngerdd poblogaidd gan Ysgol Gerdd Ceredigion i nodi Gwener y Groglith: cynhyrchiad graenus eto. Rydym yn ymfalchïo hefyd yn y bartneriaeth werthfawr gyda Chwmni Opera Cymru sydd wedi arwain at gytundeb i ddarlledu dwy opera o waith y cwmni cenedlaethol ar S4C bob blwyddyn. Cyflwynodd Gwyn Hughes Jones **La Bohème** (Opus) yn effeithiol iawn a'r ail opera i'w darlledu oedd **Rigoletto** (Opus). Dogfen ddifyr am y chwiorydd cerddorol Nerys a Llinos Richards oedd **Deuawd** (Torpedo). Dyma raglen a oedd ag apêl ehangach nag i'r purwyr cerddorol yn unig. Roedd **Tri Llais, Tair Chwaer** (Hon) yn gyfuniad o ddogfen bortread o Eirian, Buddug ac Elin James ac o berfformiadau ganddynt, ac yn dderbyniol iawn dros gyfnod y Nadolig. Portread cyfoes ei arddull, eto'n cyfuno perfformiad a dogfen am Ilid Jones, oedd **Ilid a'r Obo** (Cwmni Da).

CERDDORIAETH YSGAFN

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd y ddogfen ardderchog **Meic Stevens – Dim ond Heddiw, Ddoe a Fory** (Acme). Dyma raglen oedd yn amlwg yn llafur cariad i'r cynhyrchydd, a ddeliodd yn llwyddiannus ac onest â chymhlethdod dawn unigryw y canwr o Solfach sy'n eilun i sawl cenhedlaeth. Cyplyswyd y rhaglen ddogfen gyda **Meic Stevens – Y Swynwr o Solfach** (BBC), cyngerdd a recordiwyd nos Lun yr Eisteddfod yn Nhyddewi. Cyngerdd arall eithaf bywiog a recordiwyd y tro hwn ym Machynlleth oedd **Dafydd Iwan ac Ar Log – Cerddwn Ymlaen** (Elidir i'r BBC) tra roedd **Y Bws Gwlad** (Tonfedd/Eryri) yn gyfres a gyflwynodd lu o artistiaid canu gwlad Cymru gyda Tara Bethan yn dod ag elfen ifanc i'r maes.

ADLONIANT

Arbrawf mentrus a chwbl unigryw i S4C oedd **cariad@iaith** (Fflic). Cyfres oedd hon oedd yn dilyn criw oedd wedi gwirfoddoli i gau eu hunain yng Nghanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn am wyth wythnos er mwyn dysgu Cymraeg. Roedd y gwrthdaro rhwng ambell un ohonynt, yn ogystal â'r pwysau o fod allan o gysylltiad gyda'r byd a'r her o ddysgu'r iaith yn creu munudau difyr iawn. Dydi sioe siarad, wrth gwrs, ddim yn syniad newydd ond llwyddodd **Nia** (Pedol/Apollo) i gyflwyno wynebau hen a newydd mewn cyd-destun deniadol a phroffesiynol gyda chynhesrwydd Nia Roberts yn fan cychwyn allweddol. Dychwelodd **Twrio** (Pedol/Apollo) gydag arwerthwr newydd ac roedd y gyfres yn cynnig eitemau difyr i'w gwerthu gyda straeon diddorol yn gysylltiedig â nhw. Roedd **Noson Lawen** (Tonfedd/Eryri) yn dal yn gryf ei hapêl ac yn amrywiol ei chynnwys ond mae angen datblygu pellach ar

RASUS

SPORT

Other events which receive appropriate attention in our schedule are those in the sporting arena. **Y Clwb Rygbi** (BBC), via a contract and understanding with BBC Wales, ensures that it is possible for us to offer a live rugby game on Saturday evening nearly every weekend of the rugby season. During 2002 this included the Celtic League and games from the Heineken and Parker Pen championships, as well as the Welsh League. All these games are shown only on S4C on a Saturday evening and are a strong attraction to a significant number of viewers, both in Wales and over the border, who aren't regular viewers. It also strengthens the Welsh language in homes where it may be understood but rarely used. The standard of production and commentary are particularly high. Wales' international games are also broadcast back-to-back with English-language broadcasts on the BBC. On Tuesday evenings on digital, a different production team gave us the best of French rugby in **Le Rygbi** (Agenda). Although the standard of the Sunday afternoon magazine programme, **Y Clwb** (BBC), exceeded that of **Gôl**, its predecessor, questions are being asked regarding the attractiveness and uniqueness of this provision. The programme now includes some coverage of League of Wales football, as well as rugby.

The success of Wales' national football team is the subject of great delight to many and **Pêl-droed Rhyngwladol** (BBC) brings Welsh-language commentary to the screen. Whenever possible, we attempt to acquire the rights to games which will be of particular interest to football fans in Wales. The **Bangor v SK Sartid** (Nant) game was broadcast and every Monday evening **Sgorio** (Nant) continues to show, with authority and polish, a selection of highlights from games played on the continent. The programme is of wider interest since Channel 4 ceased broadcasting games from Italy. Although it was of interest to fanatical football fans, the appeal of **Mae'r Byd yn Grwn** (Nant) – a programme on football worldwide – was perhaps too limited for peak hours.

Once again, **Rasus** (Pedol) succeeded in attracting followers of harness racing and an experiment was undertaken this year to see how much interest there would be in watching indoor bowling with a competition between Wales and England in **Pencampwriaeth Bowlio Dan Do Cymru** (Agenda). Lessons were learnt as the week progressed and there was an exciting climax. One of the year's best sports events was the live broadcast of an historic cricket match between Wales and England **Cymru a Lloegr** (Cwmni 10).

Cymru ar Râs (Dream Team) shows a Welsh team competing in a series of different outdoor stamina events. The wonderful views and the competitors' heroic endeavours give the programme a strong appeal although this series did not generate the same response as previous ones.

Y TRI TENOR

MUSIC

Much of S4C's classical music provision forms part of the **Events** discussed above, but the following highlights must also be mentioned: **Y Tri Tenor** (Opus), a concert from Bangor – polished performances of musical favourites, well lit and well dressed; and **Cario'r Groes** (Opus) – a popular concert by Ysgol Gerdd Ceredigion held to mark Good Friday: another high-class performance. We are also proud of the valuable partnership with the Welsh National Opera, which has led to an agreement to broadcast two of the company's operas on S4C every year. Gwyn Hughes Jones presented **La Bohème** (Opus) very effectively and the second opera broadcast was **Rigoletto** (Opus). **Deuawd** (Torpedo) was an interesting documentary about the musical sisters Nerys and Llinos Richards. This was a programme that appealed to a wider audience than musical purists alone. **Tri Llais, Tair Chwaer** (Hon) was a combination of a documentary portrait of Eirian, Buddug and Elin James and of performances given by them, and was very acceptable fare during the Christmas period. **Ilid a'r Obo** (Cwmni Da) was a contemporary portrait of Ilid Jones which, once again, combined performance and documentary.

LIGHT MUSIC

One of the year's highlights was the excellent documentary, **Meic Stevens – Dim ond Heddiw, Ddoe a Fory** (Acme). The programme was a labour of love for the producer and it dealt successfully and honestly with the complexity of the unique talent of the singer from Solva who has been an idol to several generations. This documentary was linked with **Meic Stevens – Y Swynwr o Solfach** (BBC), a concert recorded at the National Eisteddfod in St David's. Another, quite lively concert, this time recorded in Machynlleth, was **Dafydd Iwan ac Ar Log – Cerddwn Ymlaen** (Elidir for the BBC), while **Y Bws Gwlad** (Tonfedd/Eryri) was a series which presented a host of Wales' country music artistes, with Tara Bethan bringing a young element to the scene.

ENTERTAINMENT

cariad@iaith (Fflic) was a unique and daring experiment for S4C. It followed a group of people who had volunteered to isolate themselves in the National Language Centre in Nant Gwrtheyrn for eight weeks in order to learn Welsh. Tensions between some of them, as well as the pressure of being out of touch with the outside world and the challenge of learning a new language, made for some very entertaining moments. The chat show is not, of course, a new genre, but **Nia** (Pedol/Apollo) succeeded in presenting old and new faces in an attractive and professional context, with Nia Roberts' warm personality a key to the series' success. **Twrio** (Pedol/Apollo) returned with new auctioneers and the series offered entertaining items for sale with interesting provenances. **Noson Lawen** (Tonfedd/Eryri) retains its strong appeal and its variety of content but **Diolch o Galon (**Tonfedd/Eryri), which aimed to give viewers the opportunity to publicly thank benefactors, needs further development. It is no mean feat for a comedian to maintain his own half hour series but many felt that Dilwyn Pierce succeeded in **Da di Dil de** (Tonfedd/Eryri), although others considered that some of the themes used in his humour were inappropriate for today's society. Two one-off programmes of

Diolch o Galon (Tonfedd/Eryri) oedd yn anelu at roi cyfle i'r cyhoedd ddiolch yn gyhoeddus i gymwynaswyr. Tipyn o gamp yw i ddigrifwr gynnal cyfres hanner awr ei hun ond llwyddodd Dilwyn Pierce i wneud hynny yng ngolwg llawer yn **Da di Dil de** (Tonfedd/Eryri), er bod eraill o'r farn nad yw rhai o'i destunau hiwmor yn briodol yn y byd sydd ohoni heddiw. Cafwyd dwy raglen unigol o **Ma' Ifan 'Ma** (Tonfedd/Eryri) yng nghwmni Ifan Gruffydd, Tregaron. Roedd y cynhyrchiad yn gyfoes ac yn cynnwys gwesteion yn sgwrsio neu'n canu yn ogystal â deunydd doniol Ifan ei hun. Amrywiol oedd safon y perfformwyr yn y gystadleuaeth i dalentau newydd **Ar y Bocs** (Al Fresco). Rhoddwyd cyfle i'r goreuon o'r rhain ymddangos yn y ddrama gerdd arbennig ar gyfer y Nadolig **Dwi Isho Bod yn Enwog** (HTV). Roedd hon yn stori ddeniadol gyda safonau cynhyrchu uchel a weithiodd yn dda fel rhan o'r arlwy Nadolig.

Mae **Malu Canu** (Al Fresco) yn enghraifft o gêm banel na ellir dweud ei bod yn fethiant ond eto nad yw'n cyrraedd y safonau uchel o ffraethineb a gyflwynir ar raglenni o natur gyffelyb ar sianelau rhwydwaith.

Ni chafwyd ymateb da i **Blingo'r Bwci** (IE) na **Siopa Byw** (P.O.P.1). Dyma ddwy gyfres arbrofol oedd yn ceisio denu ymateb gwylwyr, ar y naill law i'r betio ac ar y llall i'r prynu ond yn y ddau achos nid oedd yr elfennau adloniadol yn ddigonol i ennill teyrngarwch cynulleidfa oedd yn chwilio am ddifyrrwch yn yr oriau brig.

COMEDI

Ers peth amser, mae comedi wedi bod yn faes anodd i'r sianel. Prin iawn fu'r llwyddiannau diamheuol. Eleni, fodd bynnag, cafwyd un gyfres oedd – er nad at ddant pawb – yn denu ymateb cryf a chadarnhaol gan nifer sylweddol o wylwyr. **9 Tan 9** (Tonfedd/Eryri) oedd honno ac Eilir Jones yw'r awdur. Mae iddi sefyllfa syml, hawdd ei deall, sef siop fach yn brwydro am ei bodolaeth yn erbyn siop fawr ac mae ynddi gymeriadu, actio ac amseru da. Mater o chwaeth yw'r hiwmor ond mae'n amlwg ei bod yn taro tant gyda llawer un. Cafwyd cyfres arall o **Porc Peis Bach** (Cambrensis) a diddorol sylwi sut mae hiwmor y gyfres yn newid wrth i Kenneth dyfu'n hŷn. Mae'r hiwmor yn ymdebygu i ffilmiau "Carry On .." ac efallai'n llai addas ar gyfer darllediad 6.30 yh nag oedd y cyfresi blaenorol. Cymysg oedd yr ymateb i **Bob a'i Fam** (Tonfedd/Eryri). Tynnodd Meic Povey gryn swmp o ddeunydd o'r sefyllfa pedair congl sylfaenol ond a oedd tuedd ynddi i droi yn ei hunfan? Mae'n draddodiad cynnig rhaglen neu ddwy sy'n adlewyrchu, trwy sgetsus a diwylliant hwyr y nos, rywfaint o fwrlwm diwylliant ieuenctid yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd **Pawb Nôl i Dŷ Dewi** (Boomerang) yn ymgais lai llwyddiannus i'r cyfeiriad hwn nag a gafwyd mewn blynyddoedd diweddar.

RHAGLENNI ADLONIANT UNIGOL

Gydol y flwyddyn mae'r amserlen yn cael ei britho gan raglenni adloniant unigol. Ar ddydd Santes Dwynwen, roedd **Dwsin Dwynwen** (Avanti) yn gyfle ardderchog i chwilota yn archif S4C am ddeunydd yn ymwneud â serch. Recordiwyd noson llwyddiannus iawn yn Theatr Hafren, y Drenewydd, oedd yn ddathliad o sioeau cerdd Cwmni Theatr Maldwyn sef **Ar Noson Fel Hon** (Opus). Ymatebwyd ar fyr rybudd yn **Gary Bayley – Y Sêr Yn Ei Lygaid** (Apollo) i lwyddiant bachgen o Gaernarfon i gael lle yn rownd derfynol *Stars In Their Eyes*. Dangoswyd bachgen ifanc, dawnus nad oedd yn dilyn y llwybr eisteddfodol. Prynwyd y darllediad cyntaf yn y DU o **Riverdance** (Tyrone Productions). Cafwyd troslais deallus gan Alwyn Humphreys ac roedd safon uchel y cynhyrchiad yn gyfiawnhad i ni ei darlledu.

DRAMA

Un o'r prif destunau trafod yn ein cyfarfodydd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn oedd pryder ynglŷn â'r hyn oedd yn cael ei ddisgrifio fel dirywiad safon **Pobol y Cwm** (BBC) er gwaetha'r ffaith mai dyma'r gyfres sydd yn denu'r nifer uchaf o wylwyr bob wythnos, fel y mae disgwyl i opera sebon ei wneud. Wedi'r haf, fodd bynnag, gwelwyd y sgriptio a'r actio yn cryfhau dan arweiniad cynhyrchydd newydd gyda tho newydd o actorion profiadol yn ymuno â'r gyfres. Symudwyd **Rownd a Rownd** (Nant) i amser darlledu newydd am 6:30 yh a chafwyd ymateb cadarnhaol i'r amser newydd a'r hyd estynedig. Llwyddodd y gyfres i gyrraedd cynulleidfa ehangach heb golli ei hapêl i blant. Coleg chweched dosbarth rywle yng Nghymru yw lleoliad **Xtra** (Nant) ac mae'r themâu a ddilynir yn anelu at ddenu cynulleidfa iau. Mae'r arddull yn fywiog a chyfoes.

Ymgais i ddangos bod yna fywyd ifanc cyffrous yng nghefn gwlad sydd, yn rhannol, y tu ôl i **Darn o Dir** (Apollo). Cafwyd actio da, sgript gref a golygu dychmygus. Mae yna actio cryf a straeon da hefyd yn **Tipyn o Stâd** (Tonfedd/Eryri) sy'n araf ennill ei thir y tu allan i'r Gogledd Orllewin.

Ar un cyfnod yn ystod y flwyddyn, dioddefodd yr amserlen wrth ddarlledu yn rhy agos at ei gilydd, ddramâu a oedd, er yn haeddu canmoliaeth bob un, yn rhy debyg i'w gilydd yng ngolwg gwylwyr. Er mor wahanol o ran stori, roeddent yn rhannu cefndir o fywyd caled, llwm, gogleddol heb ddigon o hiwmor i ysgafnhau yr arlwy. Rhaid gofalu na ddigwydd hyn eto yn y dyfodol gan fod i bob un o'r cyfresi hyn rinweddau pendant. Mae **Talcen Caled** (Nant) yn dal yn gyfres wych gydag actio ardderchog a sgriptio sydd yn cyfuno'r eithafion o 'pathos' a hiwmor. Ond er cystal safon **Pen Tennyn** (HTV) efallai nad yw nos Sul yr amser mwyaf addas i gyflwyno drama sydd yn ymwneud cymaint ag iselder ysbryd.

Cymysg fu'r ymateb i un o gyfresi mwyaf uchelgeisiol y sianel sef **Treflan** (Al Fresco). Yr hyn a gafwyd oedd arddull gynhyrchu a chyfarwyddo cyfoes iawn i addasiad

9 TAN 9

Ma' Ifan 'Ma (Tonfedd/Eryri) were broadcast in the company of Ifan Gruffydd, Tregaron. The production was contemporary and included guests chatting or singing as well as Ifan's own humorous material. The quality of the performers in the new talent show **Ar y Bocs** (Al Fresco) was variable. The best of these were given the chance to appear in a special Christmas musical drama, **Dwi Isho Bod yn Enwog** (HTV). This was an attractive story which had high production values and which worked well as part of the Christmas schedule.

Malu Canu (Al Fresco) is an example of a panel show that, though it could not be regarded as a failure, has not yet reached the high standards of sharpness and wit seen in programmes of a similar nature on network channels.

Blingo'r Bwci (IE) and **Siopa Byw** (P.O.P.1) did not receive a good response. These were two experimental series which attempted to elicit the response of viewers, on the one hand through betting, and on the other through home shopping, but in both cases the entertainment elements were insufficient to win the loyalty of an audience during peak hours.

COMEDY

For some time, comedy has been a difficult area for the channel. Undoubted successes have been rare. This year however, one series, though not appealing to everyone's taste, attracted a strong and positive response from a significant number of viewers. This series was **9 Tan 9** (Tonfedd/Eryri), written by Eilir Jones. It has a simple, easy to understand situation, namely a small shop fighting for its existence against a large supermarket, and it has good characterisation, acting and timing. The humour is a matter of taste but it obviously strikes a chord with many. Another series of **Porc Peis Bach** (Cambrensis) was broadcast and it is interesting to note how the series' humour has changed as Kenneth grows older. The humour is similar to that of the *Carry On …* films and is, perhaps, less appropriate for broadcast in a 6.30pm slot than previous series. There was a mixed response to **Bob a'i Fam** (Tonfedd/Eryri). Meic Povey drew a considerable amount of material from the basic four-cornered situation, but was there a tendency to get stuck in the same groove? It has become a tradition to offer one or two programmes which reflect, through the use of late night sketches and culture, something of the excitement of the youth scene of the National Eisteddfod. **Pawb Nôl i Dŷ Dewi** (Boomerang) was a less successful attempt in this direction than others in recent years.

STAND-ALONE ENTERTAINMENT PROGRAMMES

During the year, the schedule contained several stand-alone entertainment programmes. On Saint Dwynwen's day, **Dwsin Dwynwen** (Avanti) provided an excellent opportunity to trawl the S4C archive for romantic material. **Ar Noson Fel Hon** (Opus), recorded a very successful celebration of Cwmni Theatr Maldwyn's musicals at Theatr Hafren, Newtown. **Gary Bayley – Y Sêr Yn Ei Lygaid** (Apollo) responded, at short notice, to the success of a young man from Caernarfon who won a place to compete on *Stars In Their Eyes*. It depicted a young talent who hadn't followed the usual eisteddfod route. The first broadcast in the UK of **Riverdance** (Tyrone Productions) was bought by S4C. Alwyn Humphreys provided an intelligent voice-over and the high production standard was justification for its broadcast.

TREFLAN

DRAMA

One of the main topics of discussion in our public meetings during the year was concern about what was described as the deterioration in the quality of **Pobol y Cwm** (BBC), despite the fact that the series still attracts the most viewers weekly, as one would expect of a soap opera. However, since the summer, scripting and acting have both strengthened under the guidance of a new producer and by a new cohort of experienced actors joining the series. **Rownd a Rownd** (Nant) was moved to a new broadcast slot of 6:30pm and generated a positive response to the new time and extended length. The series succeeded in reaching a wider audience without losing its appeal to children. **Xtra** (Nant) was located in a sixth-form college somewhere in Wales and its themes aimed to attract a younger audience. The style was both lively and contemporary.

Darn o Dir (Apollo) was partly inspired by an attempt to show that youngsters living in rural areas lead an exciting life. It benefited from good acting, a strong script and imaginative editing. Strong acting and good story lines are also evident in **Tipyn o Stâd** (Tonfedd/Eryri), which is slowly winning support outside the North-West.

At one time during the year the schedule suffered because various series, too similar in viewers' eyes, though each was praiseworthy in its own right, were broadcast too close to one another. Although the story-lines differed greatly, they shared a hard, bleak northern background without sufficient humour to lighten the mood. This must not happen again in the future, as each series has definite virtues. **Talcen Caled** (Nant) remains a high-quality series with excellent acting and scripting which combine the extremes of pathos and humour. Despite the excellent standard of **Pen Tennyn** (HTV), perhaps Sunday evening is not the most appropriate time to show a drama dealing predominantly with depression.

The response to **Treflan** (Al Fresco), one of the channel's most ambitious series, was mixed. Manon Eames' adaptation of Daniel Owen's novels was very contemporary in its style of production and direction. For some, the acting was riveting and the direction dramatic, while others felt that some of the characters' lack of clarity and the dark nature of the production prevented them from appreciating the strength of the content. **Fondue, Rhyw a Deinosors** (Ffilmiau Fondue) is not to everyone's taste, but this is a series which appeals strongly to an under 50s audience with great originality of writing and a very high standard of acting. **Heliwr** (Fiction Factory) is our only detective series and in the last series there were strong casting and gripping story-lines. **Iechyd Da** (Bracan) succeeded in moving the dramatic focus away from the

Manon Eames o nofelau Daniel Owen. I rai, roedd yma actio gwefreiddiol a chyfarwyddo dramatig, ond i eraill roedd diffyg eglurdeb rhai cymeriadau a natur dywyll y cynhyrchiad yn eu rhwystro rhag gwerthfawrogi cryfder y cynnwys. Nid yw **Fondue, Rhyw a Deinosors** (Ffilmiau Fondue) chwaith at ddant pawb ond mae hon yn gyfres sy'n apelio'n gryf at gynulleidfa dan 50 oed gyda gwreiddioldeb mawr yn yr ysgrifennu a safon uchel iawn o actio. **Heliwr** (Fiction Factory) yw ein hunig gyfres dditectif ac yn y gyfres olaf yma cafwyd castio cryf a storïau gafaelgar. Llwyddodd **Iechyd Da** (Bracan) i newid y canolbwynt dramatig oddi wrth brif gymeriadau'r gyfres flaenorol. Datblygodd gwleidyddiaeth swyddfa yn ffactor difyr a phwysig. Er bod yna ddisgwyl mawr am **Y Tŷ** (Fflic) – ymgais i bortreadu bywyd ifanc dinesig - ac er bod yna elfennau mentrus a gwreiddiol yn y syniad a'r cynhyrchu, roedd yna ormod o elfennau anwastad i fedru honni iddi fod yn llwyddiant. Roedd y gerddoriaeth yn elfen gref.

Ffilm y Nadolig oedd **Dirgelwch yr Ogof** (Nant), ffilm i'r teulu cyfan gydag arfordir gorllewin Cymru yn gefndir ysblennydd. Efallai nad oedd yr actio drwyddo draw cyn gryfed â'r disgwyl ond fe ddenodd ymateb da. Cafwyd perfformiadau cryf iawn yn **Gwyfyn** (Fiction Factory) – stori merch fach yn chwilio am oleuni wrth fyw gyda mam â phroblem ddiod. Da oedd gweld un o enillwyr cystadleuaeth sgriptio ffilm fer S4C, Catrin Clarke, yn llwyddo gyda ffilm awr o hyd.

Cyflwynwyd nifer o ffilmiau byrion a welwyd yn wreiddiol ar y gwasanaeth digidol. Roedd **Bronnau/Meddwi/Caru** (Opus) yn rhan o gynllun y sianel i greu gofod ar gyfer lleisiau awduron newydd. Efallai mai yn **Y Golau** (Opus), ffilm am griw o fechgyn yn dod nôl at ei gilydd ym mro eu mebyd cyn chwalu i bedwar ban byd y cafwyd un o olygfeydd doniolaf y flwyddyn. Roedd yna leisiau newydd cryfion i'w clywed yn y pedair ffilm fer – **O'r Llawr i'r Llwyfan, Bys Priodasol, Rhyfel Cartref** a **Dŵr Dwfn** (Fiction Factory). Roedd amrywiaeth y cynnwys a chryfder yr ysgrifennu yn cynnig addewid bendant ar gyfer y dyfodol. Roedd y pedair ffilm fer ac **Y Golau** yn gynnyrch cystadleuaeth sgriptio a drefnwyd gan S4C.

PLANT

Wrth i **Rownd a Rownd** (Nant) symud i'r oriau brig cafwyd peth gwacter yn amserlen **Planed Plant** ac o ganlyniad defnyddiwyd mwy o ail ddarllediadau nag sy'n ddelfrydol. Cryfhawyd tîm cynhyrchu **Planed Plant** ac mae cynnwys **Planed Plant** a **Planed Plant Bach** yn gryfach o'r herwydd. Roedd **Popty** (Avanti) yn rhoi cyfle i fandiau Cymraeg ymddangos ar lwyfan ar raglen llawn sglein a chyffro. Roedd yna elfennau o sioe dalent hefyd yn **Torri Bol** lle'r oedd Sarra Elgan a chriw **Planed Plant** yn cynnig cyfle i blant oedd am wireddu breuddwyd. Aeth **Y Rhaglen Wirion 'Na** (Apollo) o nerth i nerth gyda dwy gyfres yn ogystal â sioe lwyfan deithiol a gyrhaeddodd ryw 8,000 o blant. Roedd **Hotel Eddie** (Apollo) hefyd yn parhau i gynnal safon uchel o ddoniolwch. Newidiwyd cynulleidfa darged **Uned 5** (Antena) ym mis Medi ac yn awr mae'r oedran targed wedi codi o 6-9 i 10+. Gêmau, cwisiau, sgetsus a bandiau yn fyw o gartref un o'r gwylwyr yw naws **Noc Noc** (Apollo) tra oedd **Mas Draw** (Sianco) yn cynnig syniadau am bethau i'w gwneud yn yr awyr agored yn yr haf. Llwyddodd **Paaw** (Antena) i rannu gwybodaeth am fyd natur mewn ffordd ysgafn tra diddordebau a thalentau cudd oedd sail **13:30 Munud o Enwogrwydd** (Fflic). Byd dewinau, hud a lledrith a moch sy'n siarad a geir yn y gyfres bypedau **Cawl Potsh** (Apollo).

PLANT BACH

Yn ogystal â hen ffefrynnau fel **Tecwyn y Tractor** (Apollo), **Caffi Sali Mali** (Sianco), **Sali Mali** y cartŵn (Siriol) a chymeriadau **Rhacsyn a'r Goeden Hud** (Fflic), fe ymunodd Melog a chymeriadau eraill y **Pot Mêl** (Action Time) â theulu **Planed Plant Bach**. Trwy law'r BBC, cyflwynwyd y **Tweenies** yn y Gymraeg am y tro cyntaf. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd y sioe gerdd, **Dydd Gŵyl Hwyl** (Apollo) – rhaglen hanner can munud yn dilyn anturiaethau ein cymeriadau meithrin mwyaf poblogaidd wrth iddynt geisio dod o hyd i barti Martyn a Lowri. Yn addas iawn darlledwyd hon ar ddiwrnod pen-blwydd y sianel yn ogystal ag ar Ddydd Nadolig.

IEUENCTID

Nid rhaglenni sydd wedi eu hanelu yn benodol at gynulleidfa rhwng 16 a 24 oed yw'r unig raglenni sydd, gobeithio, yn mynd i ddenu'r garfan hon o wylwyr at y sianel. Serch hynny, mae S4C yn cydnabod fod yna adegau pan ei bod yn briodol i ddarparu rhaglenni sy'n anelu atyn nhw yn benodol gan adlewyrchu eu diddordebau a'u chwaeth. Roedd cerddoriaeth gyfoes yn cael sylw estynedig a difrifol yn **Y Sesiwn Hwyr** (Avanti) tra oedd **4trac** (Boomerang) yn rhoi llwyfan i fandiau Cymru drwy gyfrwng y fideo pop. Mae gan **Slaymaker** (Cardinal) ffans niferus sy'n gwerthfawrogi ei hiwmor a'i ffraethineb a'i ddewis o ffilmiau a gêmau. Mae'n bosib, fodd bynnag, nad y gynulleidfa ifanc yw'r un sy'n ei werthfawrogi fwyaf. Er bod **Procar Poeth** (Concordia) wedi codi sawl dadl, roedd yna gydnabyddiaeth fod yma ymgais wirioneddol i adlewyrchu elfennau o fywyd ieuenctid Cymru heddiw sydd fel arfer yn cael eu cuddio. Amrywiol oedd safon a gwreiddioldeb yr eitemau yn **Fideomondo** (Al Fresco) gyda gormod o elfennau'r rhaglen yn adlais o'r hyn a geir ar sianelau eraill. Ar S4C Digidol, cryfhaodd safonau cynhyrchu **Bandit** (Boomerang) sy'n trin a thrafod pynciau o ddiddordeb arbennig i bobl ifanc yn wythnosol.

DYDD GŴYL HWYL

previous series' main characters. Office politics were developed into an entertaining and important factor. Although much was expected of **Y Tŷ** (Fflic) – an attempt to portray the life led by young people in the city – and though both the idea and production contained daring and original elements, too many uneven elements prevented the series from claiming to be a success. The music was a strong element.

The Christmas film was **Dirgelwch yr Ogof** (Nant), a family film which used the west Wales coastline as a spectacular backdrop. The acting was perhaps not as strong as expected throughout, but it drew a good response. Very strong performances were seen in **Gwyfyn** (Fiction Factory) – the story of a young girl searching for salvation while living with a mother with a drink problem. It was good to see one of the winners of S4C's short film script competition, Catrin Clarke, succeeding with an hour-long film.

A number of short films originally seen on the digital service were showcased. **Bronnau/Meddwi/Caru** (Opus) was part of the channel's plan to create space for new authors to air their work. Perhaps one of the year's funniest scenes was seen in **Y Golau** (Opus), a film centred on a gang of boys returning to their boyhood home before dispersing to the four corners of the world. New, strong voices were heard in the four short films – **O'r Llawr i'r Llwyfan**, **Bys Priodasol**, **Rhyfel Cartref** and **Dŵr Dwfn** (Fiction Factory)**.** The variety in content and the strength of the writing showed definite promise for the future. The four short films and **Y Golau** were the fruit of a scripting competition organised by S4C.

CHILDREN

As a result of moving **Rownd a Rownd** (Nant) to peak hours, a space was left in **Planed Plant**'s schedule and, as a result, more repeats were broadcast than is ideal. **Planed Plant**'s production team was strengthened and **Planed Plant** and **Planed Plant Bach**'s content are stronger as a result. **Popty** (Avanti) gave an opportunity for Welsh bands to appear on stage in a polished and lively programme. Elements of a talent show were also seen in **Torri Bol**, where Sarra Elgan and the **Planed Plant** crew offered children the opportunity to make their dreams come true. **Y Rhaglen Wirion 'Na** (Apollo) went from strength to strength with two series and a travelling stage show which reached some 8,000 children. **Hotel Eddie** (Apollo) also maintained a high standard of comedy. **Uned 5**'s (Antena) target audience was changed in September and the target age has now risen from 6–9 to 10+. **Noc Noc** (Apollo) involves games, quizzes, sketches and bands broadcasting live from a viewer's home, while **Mas Draw** (Sianco) offered ideas on what to do outdoors during the summer. **Paaw** (Antena) succeeded in sharing information on the natural world in a light fashion, while **13:30 Munud o Enwogrwydd** (Fflic) dealt with hidden interests and talents. The puppet series **Cawl Potsh** (Apollo) included wizards, magic and illusion, and talking pigs.

SLAYMAKER

SMALL CHILDREN

In addition to old favourites such as **Tecwyn y Tractor** (Apollo)**, Caffi Sali Mali** (Sianco), the **Sali Mali** cartoon (Siriol) and the characters in **Rhacsyn a'r Goeden Hud** (Fflic), Melog and the other characters in **Pot Mêl** (Action Time) joined the **Planed Plant Bach** family. Through the BBC, a Welsh-language version of the **Tweenies** was seen for the first time. One of the year's highlights was the musical **Dydd Gŵyl Hwyl** (Apollo) – a fifty-minute programme following the adventures of our most popular nursery characters as they attempt to find Martyn and Lowri's party. Most appropriately, this was broadcast on the channel's birthday as well as on Christmas Day.

YOUTH

It is hoped that the 16–24 age group are drawn to the channel by programmes other than those aimed specifically at this audience. However, S4C acknowledges that it is, at times, appropriate to provide programmes aimed specifically at them and which reflect their interests and tastes. Contemporary music was given extended and serious consideration in **Y Sesiwn Hwyr** (Avanti) while **4trac** (Boomerang) provided Wales' bands with a platform via the medium of pop videos. **Slaymaker** (Cardinal) has many fans that appreciate his humour, wit and choice of films and games. It is, however, possible that those that appreciate him most are not part of the younger audience. Although **Procar Poeth** (Concordia) has provoked heated discussion, it was acknowledged that this was a genuine attempt to reflect certain elements, often hidden, of young people's lives in Wales today. The items in **Fideomondo** (Al Fresco) varied too much in both standard and originality, and too many of the programme's elements echoed what can already be seen on other channels. On S4C Digital, production standards were strengthened on **Bandit** (Boomerang), a weekly strand of programmes which discusses and deals with topics of special interest to young people every week.

CREFYDD

Mae **Dechrau Canu Dechrau Canmol** (Elidir) yn dal i apelio at gynulleidfa sylweddol bob nos Sul. Un o uchafbwyntiau'r gyfres ddiwethaf oedd rhaglen arbennig gydag Archesgob Caergaint, y Dr Rowan Williams. Mwynhaodd llawer o bobl y gyfres athronyddol grefyddol **Y Ffordd Ymlaen** (Cambrensis) – ymgais i wynebu cwestiynau dyfnion cyfoes ynglŷn â dyfodol crefydd Cymru. Un o gynyrchiadau mwyaf gwahanol y flwyddyn oedd **Dyddiadur Ramadan** (Teliesyn) lle'r agorodd Ali Yassine ei gartref a'i ffordd o fyw er mwyn i wylwyr weld yr hyn sy'n digwydd yn ystod yr ŵyl ympryd Foslemaidd. Darlledwyd y rhaglenni yn ddyddiol am fis ar ein gwasanaeth digidol. Gwyddom fod nifer o ysgolion wedi defnyddio'r gyfres yn eu gwersi crefydd. Ar S4C Digidol, roedd **Hanfod** (Elidir) yn cyfuno pynciau trafod crefyddol yr wythnos gydag elfen o ddefosiwn a mawl.

ANIMEIDDIO

Cwblhawyd un o brosiectau mwyaf uchelgeisiol y sianel mewn animeiddio eleni. Dangoswyd y ffilm hir **Y Mabinogi** (Cartŵn Cymru) mewn sinemâu mewn gwahanol rannau o Gymru i gyd-fynd â dathliadau pen-blwydd y sianel. Mae'r ffilm yn cyfuno straeon pedair cainc chwedlau enwog y Mabinogi yn un stori sy'n cychwyn yn ein cyfnod ni gydag actorion, cyn plymio nôl i'r straeon chwedlonol trwy gyfuniad o dechnegau animeiddio trawiadol.

Roedd **Syr Gwalchmai a'r Marchog Gwyrdd** (Moving Stills/Atsain) yn animeiddiad hanner awr o'r chwedl Arthuraidd enwog. Fel a soniwyd eisoes, roedd **Darlun Byw** (Cwmni Da) yn ddathliad o animeiddio yng Nghymru ac ar draws y byd a rhoddodd gyfle i gyflwyno ar y sgrîn rai perlau animeiddiedig o wledydd tramor yn ogystal â champweithiau animeiddwyr o Gymru. Mae'r polisi o hyrwyddo gwaith newydd gan animeiddwyr o Gymru yn parhau trwy gomisiynu nifer o ffilmiau byr rhwng 10 eiliad a 6 munud mewn hyd. Darlledwyd llawer o'r rhain ar y rhaglen **Croma** (Cwmni Da) yn ystod y flwyddyn.

Rhan bwysig o'r cynllun datblygu hwn oedd cefnogi'r 'Cartoon Forum' diweddaraf, ar gyfer 800 o ddarlledwyr, arianwyr ac animeiddwyr o Ewrop gyfan, yng Ngwynedd. Gobeithir y bydd cynyrchiadau o Gymru a gyflwynwyd yno, gyda chefnogaeth S4C, yn denu arian cyd-gynhyrchu o ffynonellau eraill.

DYSGWYR

Un o lwyddiannau mawr y flwyddyn oedd **Welsh in a Week** (Fflic) oedd yn gyfuniad difyr o addysg ac adloniant – i'r di-Gymraeg a Chymry rhugl. Mae Nia Parry yn gyflwynydd ac yn diwtor ardderchog. Soniwyd eisoes am y rhaglen arbrofol arall oedd yn ymwneud â dysgwyr sef **cariad@iaith** (Fflic). Mae **Yr Wythnos** (BBC) yn cyflwyno holl newyddion yr wythnos a aeth heibio gan wneud hynny mewn iaith sydd wedi ei hanelu at y rhai sy'n dysgu Cymraeg. Dathlodd **Dysgwr y Flwyddyn** (HTV) y rhai fu'n cystadlu am y teitl hwn mewn modd effeithiol.

YSGOLION

Mae S4C yn darlledu, o fewn y 10 awr statudol o raglenni a ddaw o law BBC Cymru, ystod o raglenni i'w defnyddio yn ysgolion Cymru. Mae'r rhain yn cefnogi'r cwricwlwm gyda blaenoriaethau yn cael eu cytuno gyda chynrychiolwyr byd addysg. Ceir pecynnau cefnogi i lawer o'r rhain sy'n cael eu darparu gan Adran Addysg BBC Cymru. Mae S4C hefyd yn cydweithio gyda Channel 4 i sicrhau fod gwybodaeth am y cyfuniad o raglenni ar gyfer ysgolion sy'n ymddangos ar S4C ac sy'n cynnwys rhaglenni Saesneg Channel 4, yn cyrraedd holl ysgolion perthnasol Cymru ar ffurf siart wal gynhwysfawr.

Ymhlith y rhaglenni ysgolion a ddarlledwyd yn 2002 roedd **Yr Allwedd Hud**, (llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 1), **Gwyddoniaeth CA2**, a ganolbwyntiodd ar Brosesau Bywyd a Phethau Byw. Yn **www.cymru** roedd Rhodri Owen yn cyflwyno eitemau ar fywyd Cymru yn hanesyddol a chyfredol ac at blant hŷn ysgolion cynradd hefyd yr anelwyd **Atila'r Iâr**, addasiad o nofel wedi ei hanimeiddio ar gyfer addysg yr amgylchedd. Darparwyd adnoddau adolygu mewn pum pwnc ar gyfer TGAU a dwy gyfres ar gyfer athrawon, **Clic Clic** yn rhoi arweiniad ar ddefnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth yn y dosbarth a Llythrennedd Deuol. Cyfresi i helpu rhieni sydd yn anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg oedd **Speak for Yourself** tra oedd **Taro Nodyn** yn cyflwyno gyrfaoedd yn y diwydiant cerdd.

CHANNEL 4

Er bod dros 50% o gartrefi Cymru erbyn hyn yn gartrefi aml sianelog ac o'r herwydd bron yn sicr o fedru derbyn Channel 4, mae gennym ddyletswydd o hyd ar y gwasanaeth analog i ddarparu cymaint â phosibl o raglenni Channel 4. Rydym yn ceisio dewis amserau priodol ar gyfer y dangosiadau hyn i'r graddau y mae hynny'n bosibl o gofio ein prif swyddogaeth o ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr Cymraeg.

Fel mewn blynyddoedd a fu mae rhai problemau amserlennu anodd yn codi yn sgîl hyn. Er hynny, llwyddwyd i ddarlledu 82% o raglenni mwyaf poblogaidd Channel 4 o fewn 14 diwrnod (targed - 90%).

Yn ystod y flwyddyn penderfynodd Channel 4 symud ei hopera sebon *Brookside* allan o'r oriau brig ond penderfynodd S4C gadw'r rhaglen yn ei slot 10:00 yh oherwydd ei bod yn parhau i ddenu gwylwyr niferus. Fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd cynnwys holl arlwy *Cricket* yn ystod cyfnod gêmau prawf yn achosi tipyn o gur pen yn enwedig pan oedd gêmau yn gor-redeg. Er mai ein polisi oedd peidio â chaniatáu i griced ddisodli **Pobol y Cwm** am



Y MABINOGI

RELIGION

Dechrau Canu Dechrau Canmol (Elidir) continues to appeal to a considerable audience every Sunday evening. One of the highlights of the last series was a special programme with the Archbishop of Canterbury, Dr Rowan Williams. Many people enjoyed the philosophical religious series **Y Ffordd Ymlaen** (Cambrensis) – an attempt to face deep questions regarding the future of religion in Wales. One of the year's most interesting productions was **Dyddiadur Ramadan** (Teliesyn), in which Ali Yassine opened up his home and his way of life so that viewers could see what happens during the Muslim fasting festival. The programmes were broadcast daily for a month on our digital service. We know that a number of schools have used the series in their religious lessons. On S4C Digital, **Hanfod** (Elidir) combined the religious topics of the week with an element of devotion and praise.

ANIMATION

One of the channel's most ambitious animation projects was completed this year. The full-length film **Y Mabinogi** (Cartŵn Cymru) was shown in cinemas in various parts of Wales to coincide with the channel's birthday celebrations. The film blends stories from the Mabinogi's four famous branches into one long tale, which begins in our time with live action sequences, before plunging back into mythology through a combination of striking animation techniques.

Sir Gawain and the Green Knight (Moving Stills/Atsain) was a half-hour animation of the famous Arthurian legend. **Darlun Byw** (Cwmni Da) celebrated animation in Wales and the rest of the world, and provided an opportunity to show some pearls of animation from foreign countries as well as some of the masterpieces produced by animators in Wales. The policy of promoting new work by animators from Wales continues through the commissioning of a number of short films of between 10 seconds and 6 minutes in length. Many of these were shown on **Croma** (Cwmni Da) during the year.

An important part of this development plan was providing backing for the latest Cartoon Forum in Gwynedd for 800 of Europe's broadcasters, financiers and animators. It is hoped that the productions from Wales presented there, with S4C's backing, will attract co-production funding from other sources.

LEARNERS

One of the year's biggest successes was **Welsh in a Week** (Fflic), which was a pleasant combination of education and entertainment – for non-Welsh speakers and fluent Welsh speakers alike. Nia Parry is an excellent presenter and tutor. The other experimental programme dealing with learners, **cariad@iaith** (Fflic), has already been mentioned. **Yr Wythnos** (BBC) presents the past week's news in language aimed at those learning Welsh. **Dysgwr y Flwyddyn** (HTV) celebrated those who competed for this title.

CARIAD@IAITH

SCHOOLS

S4C broadcasts, within the 10 statutory hours of programmes received from BBC Wales, a range of programmes for use in Welsh schools. These support the curriculum and priorities are agreed with representatives of the educational world. Support packages are provided for many of the programmes produced by BBC Wales' Education Department. S4C also works with Channel 4 to ensure that information on the combination of programmes shown on S4C and which includes Channel 4's English programmes, is sent out to all relevant schools in Wales in the form of a comprehensive wall chart.

Amongst the schools programmes broadcast in 2002 was **Yr Allwedd Hud**, (literacy in Key Stage 1), and **Gwyddoniaeth CA2**, which concentrated on Life Processes and Living Things. In **www.cymru** Rhodri Owen presented items on life in Wales, both past and present, while **Atila'r Iâr**, an animated adaptation of a novel for use in environmental education, was aimed at older primary school-age children. Revision resources were provided in five GCSE subjects and two series were provided for teachers, namely **Clic Clic**, which gave guidance on the effective use of information technology in the classroom and **Llythrennedd Deuol**. The **Speak for Yourself** series helped parents who send their children to Welsh-medium schools, while **Taro Nodyn** depicted careers within the music industry.

CHANNEL 4

Although over 50% of Wales' homes are now multi-channel homes and, consequently, can almost certainly receive Channel 4, we still have a duty to provide people using the analogue service with as many of Channel 4's programmes as possible. We try to choose appropriate times for these broadcasts as much as is possible, bearing in mind our main duty of providing a comprehensive service through the medium of Welsh.

As in the past, some problems with the schedule have arisen as a result. Despite this, 82% of Channel 4's most popular programmes were broadcast within 14 days (target - 90%).

During the year, Channel 4 decided to move its soap opera, *Brookside*, from peak time, but S4C chose to keep the programme in the 10:00pm slot as it continues to attract viewers. As in the previous year, broadcasting all the *Cricket* output during the test match season was problematic, especially when a significant number of games over-ran. Although our policy was not to allow cricket to replace **Pobol y Cwm** at 7:00pm, it was decided on one occasion to broadcast a game to its conclusion, which meant that the rest of the evening's schedule was delayed by some 15 minutes. *Big Brother* is another of Channel 4's popular programmes. The policy in 2002 was to broadcast the programme live as much as possible while at the same time preserving the Welsh schedule until 9:00pm, with the exception of the day of the final programme.

Two particularly controversial programmes, namely *Autopsy* and *Beijing Swings* were broadcast. Despite objections from several quarters, we continued with our policy of accepting Channel 4's editorial decisions unless the broadcast time on S4C raised new questions.

SIAMBR Y CYNULLIAD
ASSEMBLY CHAMBER

7:00 yh, roedd yna un achlysur pan benderfynwyd dilyn gêm hyd ei therfyn er gwaethaf hynny, gan olygu gohirio gweddill amserlen y noson o ryw 15 munud. Mae *Big Brother* yn rhaglen boblogaidd arall gan Channel 4. Y polisi yn 2002 oedd darlledu'r rhaglen yn fyw cyn amled â phosibl ond gan warchod amserlen Gymraeg hyd at 9:00 yh ar wahân i ddiwrnod y rhaglen derfynol.

Darlledwyd dwy raglen arbennig o ddadleuol sef *Autopsy* a *Bejing Swings*. Er gwaethaf gwrthwynebiad o sawl cyfeiriad, parhawyd â'n polisi o dderbyn penderfyniadau golygyddol Channel 4 oni bai fod amseriad y darllediad ar S4C yn codi cwestiynau newydd.

S4C2

Mae ail sianel ddigidol S4C2 yn cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaeth o drafodaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn fyw pan fydd y Cynulliad yn eistedd. Gwneir hyn trwy drefniant a phartneriaeth arbennig gyda BBC Cymru lle mae S4C yn darparu'r amser darlledu a'r cyfleusterau trosglwyddo a'r BBC yn darparu gwasanaeth golygyddol o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn darlledu holl drafodaethau sesiynau llawn y Cynulliad ynghyd â nifer o'r pwyllgorau. Cynhelir cyfweliadau achlysurol gydag aelodau'r Cynulliad ac eraill. Mae gwybodaeth am aelodau, pwyllgorau a phynciau yn ymddangos ar y sgrîn trwy gyfrwng graffeg yn ystod sesiynau.

Mae bwrdd golygyddol ar y cyd rhwng y BBC ac S4C yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion polisi'r gwasanaeth.

Yn ogystal, mae S4C yn un o'r darlledwyr sydd wedi mynd i bartneriaeth gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun yng Nghwmni Darlledu'r Cynulliad er mwyn sicrhau creu'r lluniau a'r sain sydd ar gael i'r tri darlledwr ac i eraill yn ôl y galw.

Mae gwasanaeth S4C2 ar gael trwy'r DU ar loeren ar fotwm 519. Mae hefyd ar gael ar deledu digidol daearol yng Nghymru ar fotwm 13 ac ar gebl ntl ar sianel 853. Yn 2002 darlledwyd cyfanswm o 638.93 o oriau o wasanaeth y Cynulliad ar S4C2.

Mae holl gostau S4C mewn perthynas ag S4C2 yn cael eu talu gan S4C Masnachol gan mai gwasanaeth wedi ei drwyddedu gan yr ITC ydyw, yn hytrach na rhan o swyddogaeth statudol S4C.

Yn ystod yr oriau pan nad yw'r Cynulliad yn darlledu, mae S4C Masnachol yn trefnu i osod y gofod sydd ar gael ar deledu daearol ac ar loeren i wasanaethau eraill, trwy gwmni S4C2 Cyf., gyda'r incwm sy'n deillio o'r ffynonellau hyn yn rhan o'r modd y mae S4C Masnachol yn cyfrannu trosglwyddiad ariannol i gryfhau'r gwasanaeth cyhoeddus.

S4C2

S4C2, the second digital channel, provides live coverage of proceedings from the National Assembly for Wales when the Assembly is in session. This is done by agreement and in a special partnership with BBC Wales, in which S4C provides the transmission capacity and air time, and the BBC provides the day-to-day editorial service. The service broadcasts all debates held during the Assembly's full sessions as well as a number of the committees. Occasional interviews are held with Assembly members and others. Graphical information regarding members, meetings and subjects appear on screen during the sessions.

A joint BBC/S4C editorial board meets regularly to discuss policy matters in relation to the service.

In addition, S4C is one of the broadcasters in direct partnership with the National Assembly itself in the National Assembly Broadcasting Company, which ensures the creation of pictures and sound for all three broadcasters and others as required.

The S4C2 service is available throughout the United Kingdom on satellite on channel 519. It is also available in Wales via digital terrestrial television on channel 13 and on ntl cable on channel 853. In 2002, a total of 638.93 service hours were broadcast from the Assembly on S4C2.

All S4C costs incurred in respect of S4C2 are borne by S4C's commercial arm, S4C Masnachol, as S4C2 is an ITC-licensed service, rather than part of S4C's statutory remit.

During the hours when the Assembly is not in session, S4C Masnachol arranges that the air time available on terrestrial television and on satellite is let to other services via S4C2 Cyf., with the resultant income generated from these sources being part of the way in which S4C Masnachol contributes financial transfers to strengthen the public service.

COMMERCIAL